O BLAS I BLAS *yng ngofal Bruce Griffiths*

O'r naill blas i'r llall: daeth Gŵyl Fathew, Medi'r 21ain, fy mhenblwydd i a dyddiad marw Owain Glyndŵr. Buom yn dathlu'r achlysur yn Llys Llan-gain, sef Kentchurch Court yn Sir Henffordd: plasty hynafol ydyw, cartref y Scudamoriaid, teulu Glyndŵr. Hyd yn oed heddiw, mae'n anghysbell ac ynghladd mewn ardal goediog, a hawdd credu y gallai Glyndŵr fod wedi ymochel yno. Ehangle ydyw, gyda'i ystafelloedd a'i goridorau panelog yn llawn darluniau o'r teulu drwy'r canrifoedd, ac o greiriau eraill. Mewn lle amlwg ar ben grisiau, gwelir y darlun bychan enwog y tybid ei fod yn dangos Siôn Cent, bardd y teulu, yn henŵr musgrell penwyn. Cred rhai mai'r un gŵr oedd Siôn Cent a Glyndŵr, ac mai darlun o Lyndŵr ei hun yw hwn. Y farn ddiweddaraf yw mai arlunydd o Fflandrys a'i paentiodd, ac mai darlun ydyw o Sant Sierôm, cyfieithydd y Beibl, gan fod yr hen ŵr yn dal ysgrifbin a llawysgrif. Ni wn i fawr, ond mae anobaith hollol drasig yn llygaid yr hen ŵr, ac nid yw'n f'atgoffa i o unrhyw ddarlun o Sierôm a welais erioed, nac o unrhyw sant o ran hynny.

Pwy oedd Jack O' Kent?

Yn yr ardal ceid traddodiad llên gwerin ynghylch 'Jack O' Kent' fel rhyw fath o ddewin neu gawr, yn chwarae castiau - tebyg i Huw Llwyd o Gynfal - ond ni cheid ac ni cheir unrhyw syniad mai bardd o Gymro Cymraeg ydoedd. Cawsom groeso caredig iawn gan Mrs Jan Lucas-Scudamore, a soniodd wrthym am y traddodiad ynghylch cistaid o hen lawysgrifau, (gan gynnwys cyfieithiad Glyndŵr o'r Beibl i'r Gymraeg!) a ddefnyddiwyd i gynnau tân gan y bwtler tra 'roedd y perchnogion oddi cartref. Noswyliasom, mawr ein braint, yn ystafell wely Glyndŵr ei hun - ystafell dywyll, lawn cysgodion, o baneli derw duon, a grisiau cudd y tu ôl iddynt, yn arwain heibio ystafelloedd eraill i ben tŵr. Lle digon bwganllyd, i rywun dychmygus: 'roeddwn yn lled-ddisgwyl y deuai'r arwr i roi neges dyngedfennol inni, ond distaw fel y bedd a fu'r noson.

Yn ystod 2004 gwelwyd y plasty hwn yn ei holl ogoniant mewn cyfres deledu, sef *Regency House Party*, ar Sianel Pedwar Lloegr. O blith nifer o blastai a gystadlai am y fraint o lwyfannu'r gyfres, dewiswyd Llys Llan-gain a gwariwyd ffortiwn ar ei atgyweirio a'i ail-addurno ar ei chyfer. Cyhoeddwyd llyfr hardd a diddorol, Regency House Party gan Lucy Jago, sy'n adrodd hanes y cyfnod (ond nid hanes Llys Llangain) (Cyh. *Time Warner Books, 2004*). Ei bris yw £18.99 ond ceir gostyngiad sylweddol os arhoswch yn y Llys ei hun!

Sheela-na-gig ar fur deheuol y gilfach gron.

Lle claddwyd Sion Cent?

Edrychaf ymlaen at ddarllen, yn Llên Cymru, ysgrif ar Siôn Cent gan M.Paul Bryant Quinn; ac yn ddiweddaraf oll, dyma lyfr Alex Gibbon ar *The Mystery of Jack Of Kent and the Fate of Owain Glyndŵr* (Sutton Publishing, 2004, £18.99 ISBN 0-7509-3319-4), sy'n datgelu mai yn Llanwrda y claddwyd y gwron gan ei deulu. (Os oes arnoch awydd cysgu yn llofft Glyndŵr, ceir gwely a brecwast yn Llys Llan-gain am bris rhesymol iawn: ymholer â Mrs Jan Lucas-Scudamore, Kentchurch Court, Pontrilas, Hereford HR22 0DB; ffôn: 01981 240 228; ffacs: 01981 240 114; e-bost: enquiry@kentchurchcourt.co.uk; gwefan: www.kentchurchcourt.co.uk

Eglwys Normaniadd Kilpeck

Mae Llan-gain am y ffin â Sir Fynwy - 'does raid ond croesi pont fechan - a cheir yn yr ardal enwau Cymraeg megis Twyn y Corras, Lower Corras, a Trolway (Tre-Olwy) ym mysg eraill. Cymraeg oedd iaith yr ardal (hen deyrnas Erging gynt) hyd tua 1850, ymhell ar ôl iddi farw yn Sir Faesyfed, er enghraifft. Aethom i bentref dymunol Kilpeck i weld adfeilion ei gastell ond yn anad dim, ei eglwys Normanaidd hardd. Mae addurniadau'r porth yn drawiadol - tebyg i rai eglwys Iffley ger Rhydychen - ond mwyaf syfrdanol yw'r gargoiliau grotesg, digrif a difrif, a gerfiwyd yn un gyfres ddi-dor o amgylch talcenni'r eglwys. Er mai tywodfaen yw'r garreg, mae'n syn cyn lleied o ôl traul y tywydd sydd arnynt ers dros wyth ganrif. Yr oeddynt hefyd mor uchel fel na allai'r Piwritaniaid mo'u cyrraedd i'w malurio. Mae'r cerfiad o gi a chwningen fel petai ond newydd ei gerfio ac fel rhywbeth o gartŵn gan Walt Disney; ac yma ceir yr enghraifft orau yn y wlad, mi debygwn i, o'r cerfiad anweddus a elwir (am ryw reswm) yn 'Sheila-na-gig', sef caricatur hyll o wraig yn ei dinoethi ei hun - arwydd o anlladrwydd. Gwelir hefyd gerfiad o grythor - un o'r lluniau prin iawn o'r crwth - a cherfiad o ddau filwr Cymreig. Mae'n werth prynu'r llyfryn *The Parish Church of St Mary & St David at Kilpeck* gan James Bailey (Five Seasons Press, Hereford, 2000). Diolchaf yn fawr i Reg Boulton am gael dangos ei luniau o rai cerfiadau, o'i lyfr The Sculptures of Kilpeck. Ceir te a theisen flasus ym mharlwr cartref rhywun dros y ffordd i'r eglwys.

O flaen yr eglwys mae panel, o waith haneswyr lleol, sy'n crynhoi hanes y plwyf, ond yn unllygeidiog iawn i'm tyb i. Enw cyntaf y plwyf oedd Llanddewi Cilbeddeg: fe'i gwelir yn Llyfr Llandaf, a Dewi a'i sefydlodd, neu ddisgybl iddo yn ei enw. Y tebyg yw mai gŵr lleol o bwys, arglwydd neu feudwy, oedd Peddeg. Ni wyr yr haneswyr lleol fawr o hyn. Honnir mai Sacsoniaid a sefydlodd yr eglwys gyntaf yma yn y chweched neu'r seithfed ganrif (pryd nad oeddent ar gyfyl y lle). Er hynny sonnir am 'Cil Pedic' a'i ddehongli i olygu The cell of Pedic a dweud mai David a sefydlodd yr eglwys: brysir i'n sicrhau nad y Cymro enwog oedd, ond 'a local man'. Honnir mai yng nghofnodion Normanaidd yr unfed ganrif ar ddeg y crybwyllir enw'r lle gyntaf: ni wyddys am y cyfeiriad yn Llyfr Llandâf. Er gwaethaf y llu o enwau megis Harries, Gwatkin, Williams, Powell ayb ar y cerrig beddi, bellach anwybyddir hanes hollol

(Parhâd ar y dudalen nesaf)